Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Gylch Meithrin Talybont A Llandygai
# Ysgol Llandygai
# Llandygai
# Bangor
# LL57 4HU

## Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2017

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| Barn | Yr hyn mae'r farn yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2017: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 22/08/2017**

## Cyd-destun

Lleoliad cyfrwng Cymraeg yw Cylch Meithrin Talybont a Llandygai, sydd yn cwrdd ar safle Ysgol Gynradd Llandygai, ger Bangor, yn awdurdod lleol Gwynedd.  Mae'r lleoliad yn agor yn y bore a'r prynhawn am bum niwrnod yr wythnos ac mae yno dri ymarferwr.

Mae cofrestriad y lleoliad yn caniatáu derbyn hyd at 20 o'r plant ar unrhyw adeg benodol, ac mae'r lleoliad yn derbyn plant rhwng dwy a phedair oed.

Mae bron pob un o'r plant o darddiad gwyn Prydeinig a lleiafrif ohonynt sy'n siarad Cymraeg fel eu mamiaith.  Ar hyn o bryd, ychydig iawn o'r plant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.

Dechreuodd y ddwy arweinyddes ar eu swyddi ym mis Medi 2015.  Arolygwyd y lleoliad gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) ddiwethaf ym mis Ionawr 2017 a gan Estyn ym mis Ionawr 2010.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol y lleoliad yn dda oherwydd bod:

- y rhan fwyaf o'r plant yn datblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn gynyddol a llwyddiannus
- y rhan fwyaf o'r plant yn ddysgwyr hyderus ac yn ymddwyn yn gwrtais a chyfrifol
- ymarferwyr yn cydweithio'n ddiwyd i ddarparu profiadau cyffrous a diddorol
- yr addysgu'n targedu anghenion y plant yn bwrpasol
- gofal tyner yr holl ymarferwyr yn creu awyrgylch gweithgar
- ardaloedd dysgu dan do ac yn yr awyr agored yn ennyn diddordeb y plant yn effeithiol

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r lleoliad yn dda oherwydd bod:

- yr arweinwyr yn gosod cyfeiriad pwrpasol i'r lleoliad
- cymorth pwrpasol y person cofrestredig yn sicrhau darpariaeth fuddiol a monitro cyson
- systemau gwella ansawdd yn ystyried safbwyntiau pawb sy'n gysylltiedig â'r lleoliad er mwyn gwella'r ddarpariaeth
- hyfforddiant ymarferwyr yn effeithiol ac yn dylanwadu'n llwyddiannus ar y profiadau dysgu a'r addysgu
- partneriaethau cadarnhaol gyda rhieni, gofalwyr, ysgolion lleol ac asiantaethau allanol
- yr arweinwyr yn gwario arian yn synhwyrol i wella adnoddau
- y person cofrestredig yn sicrhau cefnogaeth gref ar draws holl weithredoedd y lleoliad

## Argymhellion

A1 Mireinio’r asesiadau dyddiol i dargedu'r camau nesaf yn nysgu plant unigol

A2 Mynd i'r afael â'r materion sy’n ymwneud â’r safle a allai gael effaith anffafriol ar les y plant

A3 Sicrhau bod y pwyllgor rheoli’n cynnal archwiliadau ariannol swyddogol a chyrraedd gofynion rheoleiddio ariannol effeithiol

**Beth sy’n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion.  Bydd yr awdurdod lleol yn monitro cynnydd y lleoliad.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn gwneud cynnydd cyson yn y lleoliad o fannau cychwyn sydd yn debyg i neu'n uwch na'r cyfartaledd. Maent yn defnyddio'u medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh yn effeithiol mewn ystod o weithgareddau. Mae hyn yn amlwg pan fyddant yn cwblhau tasgau cyfarwydd a chymhleth yn llwyddiannus. Mae'r rhan fwyaf yn cydweithredu'n hyderus mewn chwarae bywiog pan fyddant yn dringo ar gyfarpar anturus yr ysgol a gyrru beiciau a cherbydau yn yr awyr agored.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn siarad yn glir ac yn gwneud yn siŵr bod oedolion a phlant eraill yn eu deall. Maent yn gwrando ac ymateb i gyfarwyddiadau yn dda ac yn eu rhoi ar waith yn effeithiol. Mae hyn yn amlwg pan fyddant yn trafod ansoddeiriau'n gywir wrth gyffwrdd â gwymon mewn dŵr ac wrth drafod lluniau ar ôl eu darganfod yn y tywod. Mae bron pob un o'r plant yn mynegi eu teimladau a'u hemosiynau'n effeithiol yn ystod chwarae rôl yn y gegin a'r parlwr hufen iâ. Maent yn cynnal trafodaethau synhwyrol gydag oedolion a chyda'i gilydd am y gwahanol fathau o anifeiliaid sy'n byw o dan y môr, fel siarcod a chrancod.

Mae llawer o'r plant yn dangos diddordeb mewn llyfrau ac yn mwynhau eu cynnwys. Maent yn eistedd yn dawel ac yn dilyn storïau sy'n cael eu darllen iddynt yn sylwgar a thrafod cymeriadau a digwyddiadau ynddynt yn frwdfrydig gydag oedolion a chyfoedion. Maent yn trin a thrafod y llyfrau yn yr ardal ddarllen fel darllenwyr sicr a pharod.

Mae llawer o blant yn creu marciau yn effeithiol. Maent yn mwynhau profiadau ysgrifennu ac yn defnyddio amrywiaeth o gyfryngau fel paent, pensiliau a chreonau. Mae ychydig o'r plant yn dechrau ffurfio llythrennau'r wyddor a rhifau yn annibynnol ac mewn ffurf y gellir ei hadnabod yn eithaf da wrth ymdrechu â'u henwau. Mae llawer o'r plant yn esbonio diben ysgrifennu yn y cyd-destun cywir. O ganlyniad, maent yn sgriblo a dynwared ysgrifennu eraill mewn sefyllfaoedd pob dydd, fel cymryd archeb mewn siop. Mae lleiafrif o'r plant yn dechrau adnabod eu henwau eu hunain ac enwau plant eraill yn eithaf cywir yn ystod tasgau cofrestru a gweithgareddau tebyg.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn defnyddio iaith fathemategol yn bwrpasol ac mewn cyd-destunau perthnasol. Maent yn cyfrif, yn adnabod ac yn enwi rhifau i 10 yn hyderus ac mae lleiafrif ohonynt yn cyfrif i 15 a thu hwnt. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn deall gwahaniaethau mewn maint wrth archwilio gyda chwyddwydrau. Maent yn esbonio gwrthrychau'r môr fel 'mawr' a 'bach', 'uchel' ac 'isel' yn gywir, ac os yw gwrthrych yn 'ganolig' o gymharu â gwrthrychau eraill. Maent hefyd yn trefnu gwahanol fathau o wrthrychau yn ôl lliw, maint a sïâp yn llwyddiannus. Mae llawer o'r plant yn cymharu siapiau dau a thri dimensiwn yn ystyrlon wrth greu creaduriaid allan o does ac wrth adeiladu tyrau â blociau yn yr ardal adeiladu. Gall y rhan fwyaf o blant ddewis offer a deunyddiau yn ofalus er mwyn datrys problemau mathemategol yn effeithiol.

Mae bron pob un o'r plant yn mwynhau gwrando ar gerddoriaeth ac yn ymateb yn frwdfrydig i hwiangerddi a chaneuon cyfarwydd yn y Gymraeg. Maent yn symud yn rhythmig i wahanol fathau o gerddoriaeth. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn datblygu medrau meddwl pwrpasol, ac mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar eu dysgu a'r safonau y maent yn eu cyflawni. Er enghraifft, maent yn gweithio'n ddiwyd gyda phlant eraill wrth iddynt arbrofi â thwndis a phlannu blodau, letys, cennin, winwns a moron.

Mae bron pob un o'r plant yn defnyddio technoleg yn effeithiol wrth ymateb i heriau gan ddefnyddio llechi a theganau electronig yn bwrpasol. Mae rhaglenni ac apiau addysgol ar liniadur yn datblygu eu medrau TGCh a'u medrau echddygol manwl yn bwrpasol. O ganlyniad, maent yn defnyddio ystod o feddalwedd heriol i ddatblygu eu medrau meddwl a TGCh yn llwyddiannus.

**Lles: Da**

Mae bron pob un o'r plant yn gwrtais ac yn ymddwyn yn dda. Maent yn ymateb yn hyderus mewn sefyllfaoedd gwahanol trwy ddangos parch at oedolion ac at ei gilydd. Mae bron pob un yn gwrando'n ofalus ar oedolion, er enghraifft pan fyddant yn trefnu cregyn a cherrig mân lliwgar ar dywod i greu golygfa o lan y môr. Ar ôl defnyddio'r toiled, chwarae bawlyd a gweithgareddau yn yr awyr agored, mae bron pob un o'r plant yn golchi eu dwylo'n drylwyr, heb lawer o anogaeth gan oedolyn.

Mae bron pob un o'r plant yn ymateb â chymhelliant a diddordeb yn eu dysgu ac maent yn dangos dyfalbarhad da wrth gadw ar dasg. Mae bron pob yn mwynhau'r gweithgareddau yn y meysydd dysgu ac yn rhannu a gweithio'n synhwyrol gyda phlant eraill. O ganlyniad, mae bron pob plentyn yn dangos agweddau cadarnhaol at brofiadau newydd, fel darllen llyfrau mewn pabell a gwisgo mewn gwisgoedd o wledydd eraill.

Mae bron pob un o'r plant yn uniaethu'n dda ag oedolion ac ymwelwyr pan fyddant yn cyrraedd y lleoliad a phan fyddant yn gadael. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn ddysgwyr hyderus ac annibynnol. Mae hyn yn amlwg pan fyddant yn esbonio'n synhwyrol i'w gilydd beth yw diben creu marciau wrth gofnodi nodweddion creaduriaid y môr a threfnu rhifau o un i ddeg ar lein ddillad.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn dechrau deall bod ganddynt hawliau i wneud penderfyniadau fel unigolion. Maent yn sylweddoli bod ganddynt ddewis i fynegi barn a ffafriaeth bersonol, er enghraifft wrth benderfynu symud o un ardal ddysgu i un arall yn annibynnol.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r arweinwyr a'r ymarferwyr yn darparu cwricwlwm difyr ac mae'r gwaith dyddiol yn adlewyrchu ethos y Cyfnod Sylfaen yn effeithiol. Maent yn cynllunio profiadau dysgu'n drwyadl ac mae'r gweithgareddau'n targedu diddordebau'r plant yn bwrpasol.

Mae’r ymarferwyr yn cymell y plant i ddysgu’n ymarferol ac yn arbrofol, er enghraifft wrth iddynt chwarae rôl yn y parlwr hufen iâ a chreu llif i symud gwrthrychau lawr rhes o gafnau. O ganlyniad, maent yn cael cyfleoedd pwrpasol i ddatblygu’n ddysgwyr annibynnol tu mewn a thu allan i’r adeilad.

Mae ymarferwyr yn trefnu themâu a gweithgareddau ar sail diddordebau ac anghenion y plant yn llwyddiannus. Maent yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i’r plant leisio eu syniadau personol i gyfoethogi'r gweithgareddau ymhellach. Gwelir hyn wrth i blant ddewis y cyfarpar angenrheidiol i greu cacennau yn y gegin fwd a’r offer taro sydd ei angen arnynt i gynhyrchu cerddoriaeth yn yr ardal allanol. Mae’r gweithgareddau hyn, a rhai tebyg, yn ychwanegu’n bositif at frwdfrydedd a chymhelliant dyddiol y plant.

Mae'r lleoliad yn cynllunio’n llwyddiannus i ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd a meddwl y plant. Mae gweithgareddau i hybu llythrennedd a rhifedd yn amlwg ym mhob ardal ddysgu. Mae ymarferwyr yn sicrhau cyfleoedd gwerthfawr i blant gofnodi a gwneud marciau heb gefnogaeth oedolyn. Maent hefyd yn sicrhau cyfleoedd cyfoethog i blant ddatblygu medrau rhifedd. Enghraifft o hyn yw’r profiadau i ddeall bod cynhwysedd jygiau o wahanol feintiau yn golygu bod llai neu fwy o ddŵr ganddynt i lifo i mewn i dwndis. Mae’r ddarpariaeth o ran profiadau dysgu yn llwyddo i greu dilyniant effeithlon yng nghynllunio wythnosol y lleoliad.

Mae darpariaeth y lleoliad ar gyfer datblygu’r Gymraeg yn gefnogol i’r plant. Mae’r ymarferwyr yn fodelau brwdfrydig o’r iaith ac maent yn annog y plant i ddefnyddio’r iaith gymaint ag y bo modd. Maent yn gwneud hyn drwy herio a holi’r plant yn gyson yn yr ardaloedd dysgu dan do ac yn yr awyr agored. Maent yn cynorthwyo’r plant sy’n dechrau dysgu’r iaith yn effeithlon. O ganlyniad, mae dealltwriaeth y plant a’u defnydd o’r iaith yn gwella’n gyson.

Mae’r lleoliad yn hyrwyddo ymwybyddiaeth y plant o draddodiadau, dathliadau a diwylliant Cymru’n llwyddiannus. Mae’r gweithgareddau hyn yn cynnwys dathlu Dydd Gŵyl Dewi a Diwrnod Santes Dwynwen a phobi cacennau traddodiadol.

Mae’r ddarpariaeth ar gyfer datblygu TGCh yn bwrpasol. Mae’r lleoliad yn cynnig cyfleoedd da i ddefnyddio ystod o offer fel camerâu, gliniadur, llechi electronig a theganau i’w rhaglennu. Mae pob ymarferwr yn herio’r plant yn llwyddiannus, gan ddefnyddio meddalwedd addysgol yn y Gymraeg i ddatblygu eu medrau TGCh cynnar a’u rheolaeth o gyfarpar technolegol.

Mae’r ymarferwyr yn canolbwyntio ar ddatblygu medrau corfforol a chreadigol y plant yn ddeallus. Maent yn gadael iddynt ddringo cyfarpar anturus ar dir yr ysgol, gyrru cerbydau’n fywiog yn yr ardal allanol ac arbrofi â sisyrnau wrth dorri siapiau allan o does i efelychu creaduriaid sy’n byw dan y môr.

Mae’r lleoliad yn gwneud defnydd buddiol o ymweliadau i gyfoethogi profiadau dysgu’r plant. Mae’r profiadau’n cynnwys ymweliadau i gastell lleol, sw môr, teithiau i’r pentref a gwibdeithiau i ganolfannau antur a’r goedwig. Mae nifer o ymwelwyr yn ymweld â’r lleoliad, fel y postmon a’r gwasanaeth tân. Mae’r rhain yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i’r plant ddysgu am rolau pobl yn eu cymuned.

**Addysgu: Da**

Mae’r holl ymarferwyr yn meddu ar wybodaeth gyfoes ynglŷn â datblygiad plant. Maent yn wybodus am ofynion y Cyfnod Sylfaen a’r deilliannau a ddisgwylir ar gyfer plant sydd heb ddechrau’r ysgol.

Mae’r ymarferwyr yn cyfarch plant yn gadarnhaol wrth iddynt gyrraedd ac maent yn parhau â’r brwdfrydedd hwn trwy gydol y sesiynau. Mae ymarferwyr yn cydweithio’n ddiwyd ac yn rheoli ymddygiad y plant yn sensitif. Maent yn herio’r plant yn effeithiol yn ystod tasgau, gan arwain y plant yn fedrus tuag at amcan a phwrpas y dasg. O ganlyniad, maent yn annog cyfranogiad a mwynhad y plant yn yr holl weithgareddau yn llwyddiannus.

Mae’r ymarferwyr yn ysgogi plant yn llwyddiannus i gydweithio â phlant eraill i wella’u medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh. Mae hyn yn cynnwys ymchwilio i nodweddion cregyn, gwymon a chrancod gyda chwyddwydr, didoli gwrthrychau yn ôl maint a siâp a defnyddio rhaglenni penodol ar lechen a gliniadur yn hyderus. Mae’r ymarferwyr yn holi cwestiynau yn bwrpasol i ddatblygu medrau meddwl a chyfathrebu’r plant. Mae hyn yn amlwg pan fydd y plant yn trafod y pethau sydd i’w gweld ar lan y môr ac yn cael cyfle i nodi bod y tywod yn boeth yn yr haul a bod y môr yn wlyb a hallt.

Mae’r ymarferwyr yn gweithredu system gweithwyr allweddol yn llwyddiannus. Mae’n galluogi plant i symud yn rhydd a hyderus rhwng gwahanol ardaloedd dysgu ac yn effeithio ar ddysgu’r plant yn bwrpasol. Mae’r ymarferwyr yn cwblhau asesiadau cyson yn drwyadl. Maent hefyd yn trafod yn bwrpasol gyda’r plant beth mae angen iddynt ei wneud i wella'u gwaith. Fodd bynnag, er bod manylder i’w gwaith, nid yw’r asesu yn llywio’r cynllunio yn ddigon effeithiol i dargedu anghenion plant unigol a’r camau nesaf yn eu dysgu.

Mae’r systemau ar gyfer cofnodi cyflawniadau plant yn gywir a defnyddiol. Maent yn darparu man cychwyn cadarn ar gyfer pob plentyn trwy ddefnyddio’r proffil Cyfnod Sylfaen yn effeithlon. Mae ymarferwyr yn asesu deilliannau plant unigol yn rheolaidd wrth iddynt aeddfedu yn y lleoliad ac mae hyn yn cefnogi’r trosglwyddo i ysgolion yr ardal yn llwyddiannus.

Mae’r lleoliad yn hysbysu rhieni a gofalwyr yn rheolaidd am gyflawniadau eu plant. Ar ddiwedd eu cyfnod yn y lleoliad, mae ymarferwyr yn cyflwyno adroddiad a llyfryn, naill ai ar bapur neu’n electronig, ar gynnydd y plant i rieni.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae trefniadau effeithlon yn bodoli i gefnogi iechyd a lles y plant. Mae’r trefniadau hyn yn cyfrannu’n llwyddiannus at eu datblygiad corfforol a’u lles. Mae gan y lleoliad drefniadau cadarn i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach ac mae hyn yn cynnwys hyrwyddo byrbrydau iachus. O ganlyniad, mae’r plant yn deall bod ffrwythau a llysiau ac ymarfer corff yn cyfrannu at wella iechyd a ffitrwydd.

Mae’r lleoliad yn cynnig cyfleoedd cadarnhaol i hybu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y plant. Mae ymarferwyr yn defnyddio amserau torfol yn synhwyrol i ganolbwyntio ar deimladau ei gilydd. Drwy hyn, maent yn meithrin

gwerthoedd fel dweud diolch a pharch at ei gilydd yn llwyddiannus. Maent hefyd yn atgyfnerthu'r gwerthoedd hyn a'u pwysigrwydd yn ystod gweithgareddau dyddiol yn gyson. Mae ymarferwyr yn darparu cyfleoedd rheolaidd i blant ailgylchu papur, cerdyn, nwyddau plastig a bwyd. Mae hyn yn datblygu eu dealltwriaeth o gynaliadwyedd yn effeithiol.

Mae cyfleoedd gwerthfawr ar gael i blant fyfyrio, trafod teimladau, dweud y gwir a gweddïo bob dydd. Mae hyn yn creu llonyddwch wrth i blant ddweud diolch am eu bwyd neu eistedd i wrando ar oedolyn a'i gilydd. O ganlyniad, mae'r plant yn cymryd eu tro'n gwrtais wrth fwyta byrbrydau a gweini diod o amgylch y bwrdd bwyta. Mae helpwr y dydd yn cael cyfle i gynorthwyo'n bwrpasol wrth ddosbarthu'r byrbrydau a'r diodydd, i ailgylchu nwyddau ac i gasglu a thacluso'r llestri.

Mae'r ymarferwyr yn defnyddio strategaethau ymddygiad cadarnhaol yn bwrpasol ac mae hyn yn dileu unrhyw ymddygiad annerbyniol. Maent yn wyliadwrus iawn o'r plant pan fyddant yn cyrraedd a phan fyddant yn cael eu casglu. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae'r lleoliad yn cofnodi anghenion dysgu plant yn rheolaidd pan fyddant yn ymuno ac yn ystod eu hamser yn y lleoliad. Adolygir cynnydd y plant yn gyson a chaiff eu mannau cychwyn eu nodi'n drylwyr gan ddilyn canllawiau'r proffil Cyfnod Sylfaen. Mae'r lleoliad yn targedu plant penodol gyda chymorth ychwanegol yn effeithlon pan mae'r angen yn codi. Mae'r ymarferwyr yn cydweithio gydag asiantaethau addas er mwyn darparu cymorth, fel arbenigedd y therapydd iaith a'r ymwelydd iechyd, cyn gynted ag sy'n bosibl.

**Yr amgylchedd dysgu: Digonol**

Mae'r lleoliad yn gymuned gwbl gynhwysol, sy'n cydnabod unigolrwydd y plant yn llwyddiannus ac mae'r ymarferwyr yn cefnogi plant yn ddyddiol gyda thynerwch. Mae'r ymarferwyr yn targedu anghenion y plant yn synhwyrol a chaiff yr holl blant gyfle cyfartal i ddysgu yn yr ardaloedd gwahanol.

Mae'r ymarferwyr yn hyrwyddo ethos cadarnhaol drwy eu gweithgareddau a'u cymhelliant dyddiol. Maent yn pwysleisio'n gyson wrth y plant bod angen parchu ei gilydd a bod dewisiadau unigolion, fel rhannu teganau a chymryd eu tro, yn rhan o'u datblygiad personol. Mae'r ddarpariaeth i ddathlu'r amrywiaeth yn ein byd yn gadarn ac maent yn addysgu'r plant am wyliau penodol fel y Flwyddyn Newydd Dseiniaidd. Darperir cyfleoedd hefyd i chwarae rôl â gwisgoedd o wledydd eraill, darllen storïau o bob cwr o'r byd a chwarae gyda doliau o wahanol ddiwylliannau. Mae hyn yn effeithio'n llwyddiannus ar ddealltwriaeth y plant o ddiwylliannau amrywiol.

Mae'r lleoliad yn defnyddio adnoddau'n effeithiol i fodloni gofynion y Cyfnod Sylfaen ac anghenion plant. Caiff ystod eang o adnoddau diddorol eu defnyddio'n effeithiol mewn gweithgareddau parhaus a thasgau ffocws, i gyfoethogi'r dysgu. Mae'r adnoddau ar lefel y mae'r plant yn gallu eu cyrraedd er mwyn hyrwyddo eu synnwyr o gyfrifoldeb yn bwrpasol. Mae gan y lleoliad ddigon o adnoddau TGCh i ddatblygu medrau'r plant yn llwyddiannus. Mae'r ymarferwyr hefyd yn defnyddio cyfleusterau'r ardal leol, fel adnoddau'r pentref, i gyfoethogi profiadau'r plant a'u hymwybyddiaeth o'r gymuned.

Mae'r adeilad o ansawdd addas ac yn cael ei gynnal yn briodol. Mae'r adeilad a'r adnoddau allanol yn cael eu defnyddio'n effeithiol i dyfu a phlannu, chwarae rôl, ymholi ac ymchwilio, ardaloedd i redeg o gwmpas, dringo a gyrru cerbydau. Fodd bynnag, tynnodd yr arolygydd sylw'r arweinwyr a'r person cofrestredig at ddiffyg pwysig yn ymwneud â'r ardal allanol a allai gael effaith anffafriol ar les disgyblion.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Da |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Digonol**

Mae gan yr arweinwyr ffocws pendant ar sicrhau darpariaeth gyfoethog a deilliannau da i'r plant. Mae cydweithrediad gwerthfawr rhyngddynt a'r person cofrestredig. Maent yn llywio cyfeiriad clir ar y cyd trwy ffocysu ar arferion cadarn ym mhob sesiwn. Enghraifft o hyn yw'r strwythur penodol i weithgareddau allanol a dan do yn y boreau. Mae gweledigaeth yr arweinwyr yn sicrhau bod y cynllunio, yr addysgu a'r dysgu yn effeithiol.

Mae'r arweinwyr yn defnyddio gwybodaeth berthnasol am y lleoliad i sicrhau gwelliannau i'r ddarpariaeth. Yn ddiweddar, mae hyn yn cynnwys monitro'r addysgu, datblygu'r defnydd o'r proffil Cyfnod Sylfaen a gwella ymwybyddiaeth y plant o'n byd amrywiol. Maent hefyd wedi canolbwyntio'n bwrpasol ar flaenoriaethau cenedlaethol. Mae hyn yn cynnwys defnyddio'r fframwaith llythrennedd a rhifedd yn y cynllunio i atgyfnerthu'r ddarpariaeth i wella medrau'r plant.

Mae'r arweinyddiaeth, sy'n cynnwys pwyllgor rheoli, yn sicrhau bod y ddarpariaeth ar gyfer y plant yn ddiddorol a phwrpasol. Er mai pwyllgor bach iawn sy'n bodoli, maent yn sicrhau bod ymarferwyr yn deall eu rolau'n llawn ac yn gweithio'n ddiwyd fel tîm. Mae'r arferion goruchwylio a gwerthuso rheolaidd o'r ddarpariaeth yn sefydlog. Mae'r system hon yn sicrhau bod y defnydd gorau'n cael ei wneud o arbenigedd ymarferwyr ac yn targedu hyfforddiant yn synhwyrol. O ganlyniad, maent yn diffinio cyfrifoldebau'r ymarferwyr yn bwrpasol ac yn darparu cyfleoedd i ddatblygu'n broffesiynol trwy werthusiadau blynyddol.

Mae'r person cofrestredig yn derbyn gwybodaeth fuddiol am arferion y lleoliad yn gyson gan yr arweinwyr. Maent yn cyfarfod i drefnu'r gweithgareddau'n wythnosol. Mae'r person cofrestredig yn herio'r lleoliad yn gyson fel ffrind beirniadol i wella'r ddarpariaeth, er enghraifft y defnydd o galedwedd a meddalwedd TGCh a'u heffaith ar safonau'r plant. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, y person cofrestredig sy'n gyfrifol am bob swydd ar y pwyllgor rheoli.

Nid yw trefniadau monitro gwariant y lleoliad yn ddigon cadarn gan nad oes mantolen ar gael ar gyfer cyllid y lleoliad yn y blynyddoedd diwethaf. Er bod cyfrifon banc diweddar ar gael a derbynebau misol yn cyfatebu iddynt, nid oes digon o drylwyredd ynglŷn ag archwiliadau swyddogol o'r cyllid dros amser. O ganlyniad, mae'r rheoleiddio ariannol yn ddiffyg pwysig ar hyn o bryd.

**Gwella ansawdd:  Da**

Mae’r prosesau gwella ansawdd a hunanarfarnu gwaith y lleoliad yn drwyadl ac mae’r ymarferwyr yn gweithio gyda'i gilydd yn adeiladol i symud y lleoliad ymlaen. Mae'r arweinwyr yn defnyddio arferion cyson i fonitro safonau’r plant ac ansawdd y ddarpariaeth wrth ddilyn canllawiau ac amserlen dymhorol yn rheolaidd.  Mae’r prosesau hunanarfarnu yn ystyried barnau ymarferwyr, rhieni a gofalwyr, yr awdurdod lleol a Mudiad Meithrin yn bwrpasol.

Mae’r arweinwyr yn gwneud defnydd synhwyrol o systemau’r awdurdod lleol i nodi cryfderau’r lleoliad a'r meysydd i'w datblygu yn effeithiol.  O ganlyniad, mae cynllun datblygu'r lleoliad yn cyfatebu’n gywir i’r meysydd ar gyfer gwella ac yn deillio’n uniongyrchol o’r broses hunanarfarnu.  Mae’r targedau yn cael eu blaenoriaethu’n bwrpasol i ymateb yn uniongyrchol i unrhyw ddiffygion yn dysgu’r plant, y ddarpariaeth neu’r arweinyddiaeth.

Mae'r arweinwyr a’r person cofrestredig yn blaenoriaethu gwariant yn ddefnyddiol, yn unol â'r camau gweithredu a nodwyd ar gyfer gwella.  Maent yn cytuno ar y targedau gyda’i gilydd ac yn gweithredu'r newidiadau’n effeithiol ar y cyd.  Maent yn awyddus i dderbyn syniadau newydd a awgrymwyd gan athrawes ymgynghorol yr awdurdod lleol a’r swyddog Mudiad Meithrin.  Mae’r arweinwyr yn gweithredu’n rheolaidd ar eu cyngor er lles y plant.  Mae hyn yn arwain at welliannau buddiol, fel defnyddio'r proffil Cyfnod Sylfaen i wella’r arferion asesu a defnyddio’r ardal allanol i ysgogi dysgu’r plant yn yr awyr agored.

**Gweithio mewn partneriaeth:  Da**

Mae’r lleoliad yn gweithio’n effeithiol gydag ystod o bartneriaid i wella safonau a lles plant ynghyd â’r ddarpariaeth a’r arweinyddiaeth.  Mae cydweithrediad synhwyrol yn bodoli gydag asiantaethau allanol fel yr awdurdod lleol a Mudiad Meithrin a’r ysgol leol.  Mae’r berthynas gadarnhaol hon yn atgyfnerthu gwaith y lleoliad ac yn cefnogi’n weithredol gyda hyfforddiant a dogfennaeth reolaethol ddefnyddiol.  Gwneir defnydd pwrpasol o gyfleusterau’r ysgol, sy’n cynnwys y neuadd a’r berllan.

Mae’r lleoliad yn defnyddio cysylltiadau cymunedol yn effeithiol i gefnogi dysgu’r plant.  Mae hyn yn cynnwys defnyddio adnoddau’r pentref fel yr eglwys, y castell a’r goedwig, sy’n meithrin ymwybyddiaeth a gofal ymysg y plant o’u milltir sgwâr.

Mae’r ymarferwyr yn cymryd camau gweithredol i gynnwys rhieni a gofalwyr ym mywyd y lleoliad.  Drwy ddefnydd da gylchlythyron a chyfryngau cymdeithasol, hysbysir rhieni a gofalwyr yn rheolaidd am bob agwedd o waith y lleoliad.  Maent hefyd yn eu hannog i gynnig eu barn fel rhieni ar faterion i wella'r lleoliad trwy holiaduron a thrafodaethau cyson.  Mae’r lleoliad yn gwrando ar y syniadau hyn ac yn gweithredu newidiadau, er enghraifft trwy godi arian mewn archfarchnadoedd lleol.

Mae cysylltiadau cadarnhaol gyda’r ysgolion lleol ac mae hyn yn cefnogi trefniadau pontio’r plant gyda’r camau nesaf yn eu dysgu yn bwrpasol.  Mae trefniadau ar gyfer trosglwyddo gwybodaeth bersonol ac asesiadau yn fuddiol i’r plant wrth iddynt ymgynefino â’u hysgolion newydd.

Mae’r ymarferwyr yn gweithio a chysylltu ag ystod eang o bartneriaid eraill, sy’n gwneud cyfraniad pwysig i wella’r ddarpariaeth.  Mae’r rhain yn cynnwys asiantaethau sy’n cefnogi’r lleoliad gyda hyfforddiant cymorth cyntaf, cyrsiau hylendid bwyd, asesiadau risg, hyfforddiant Cyfnod Sylfaen a hyfforddiant diogelu plant.

**Rheoli adnoddau:  Da**

Mae’r arweinwyr a’r person cofrestredig yn anelu’n gyson tuag at wella pob agwedd o waith y lleoliad trwy reoli staff ac adnoddau yn effeithlon.  Maent yn sicrhau bod gan y lleoliad ddigon o ymarferwyr cymwys sy’n cael eu defnyddio’n ddeallus ac mae’r arweinwyr yn dyrannu adnoddau’n effeithlon.

Mae’r systemau rheoli perfformiad yn effeithiol ac yn arwain at ofal tyner, profiadau dysgu diddorol ac addysgu cadarn.  Mae hyn hefyd yn galluogi ymarferwyr i ddatblygu a rhannu eu gwybodaeth broffesiynol yn bwrpasol.  O ganlyniad, mae’r lleoliad yn gymuned ddysgu lwyddiannus.  Mae diwylliant o gydweithio’n effeithiol rhwng ymarferwyr a phartneriaid eraill yn sicrhau defnydd o neuadd a thir yr ysgol.

Mae’r lleoliad yn rheoli adnoddau’n fuddiol i gefnogi’r dysgu.  Enghraifft o hyn yw newid yr ardaloedd dysgu’n aml i sbarduno’r plant.  Maent yn creu gwelliannau cyson trwy drafod ac ariannu cynlluniau i wella’r ddarpariaeth.  Er enghraifft, maent wedi gwella’r ddarpariaeth o ran adnoddau TGCh ac apiau cyfredol, i dargedu anghenion y plant.

Mae’r arweinwyr a’r person cofrestredig yn cadw cofnodion cywir o gyfraniadau ariannol rhieni.  Maent yn sicrhau bod y defnydd o arian yn cael effaith amlwg ar safonau a lles y plant ynghyd â’r ddarpariaeth.  Yn gyffredinol, mae blaenoriaethu gwariant yn synhwyrol, gan nodi cyfrifoldebau a llinynnau amser penodol yn erbyn targedau yn y cynllun datblygu.

Ar y cyfan, mae’r lleoliad yn darparu gwerth da am arian, oherwydd y ddarpariaeth gadarn ac effaith bositif yr arweinwyr a’r person cofrestredig ar safonau.

## Atodiad 1

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i’r holiadur i rieni**

Derbyniwyd llai na 10 ymateb.  Ni chaiff unrhyw ddata ei ddangos.

## Atodiad 2

**Yr arolygydd cofnodol**

| | |
|---|---|
| Mr Nicholas Jones | Arolygydd Cofnodol |

**Copïau o’r adroddiad**

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br><br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |